Cyngor Celfyddydau Cymru

# Coronafeirws: Cymorth i Sefydliadau

## Cronfa Ymsefydlogi

# Atebion Ychwanegol

Ebrill 2020

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

**Symudais i [yma] wyth mlynedd yn ôl, ar ôl sefydlu a rhedeg cwmni celfyddydol bach llwyddiannus. Rwy'n byw [yng Nghymru], mae bron y cyfan o'm gwaith yma, ac mae fy nghyfeiriad gweithio yma - a allwch chi gadarnhau bod hyn yn golygu bod y cwmni'n gymwys?**

Er ein bod yn cydnabod y gallai cyfeiriad sydd wedi'i gofrestru'n ffurfiol fod naill ai yng Nghymru neu yn Lloegr, bydd eich cwmni'n gymwys o ran hynny os gallwch ddatgan yn onest fod gennych swyddfa neu leoliad i'ch busnes sydd yma'n barhaol a'ch bod yn ei alw'n gyhoeddus yn gwmni sydd wedi'i leoli yng Nghymru.

**Nid oes gan gwmnïau Ymddiriedolwyr, dim ond Cyfarwyddwyr. Caiff erthyglau eu cynhyrchu a'u cyflwyno yn Nhŷ'r Cwmnïau yn unig, ac nid oes gofyn am eu llofnodi (oni bai eu bod yn cael eu diwygio drwy benderfyniad).**

Dylech ddarllen 'Ymddiriedolwyr' fel 'Cyfarwyddwyr' yn achos cwmnïau cyfyngedig drwy gyfranddaliadau. Mae dogfennau sy'n cael eu ffeilio a'u derbyn gan Dŷ'r Cwmnïau yn dderbyniol yn lle dogfennau a lofnodwyd.

**O gofio bod Loteri ar gau am gyfran fawr o 2019, sut gall sefydliadau y tu allan i'r portffolio brofi effaith coronafeirws? Efallai eu bod yn aros yn segur nes cael rhagor o arian prosiect, gennych chi neu ffynonellau eraill, neu'n dod o gyfnod newydd o greu/cynhyrchu neu'n mynd i gyfnod felly. Mae pob cyfle arall yn y dyfodol yn debygol o fod wedi diflannu erbyn hyn. Ond os yw'r sefydliad yn hyfyw ac yn bwysig i ecoleg ehangach y celfyddydau, hyd yn oed heb fawr o golledion neu gyda cholledion bach sy'n uniongyrchol gysylltiedig, a ddylai ymgeisio?**

Dylai sefydliadau esbonio'r sefyllfa mor llawn â phosibl mewn amgylchiadau felly. Nid yw'n ymarferol inni restru pob sefyllfa bosibl, ond caiff ceisiadau eu hasesu yn seiliedig ar y wybodaeth yn y cais. Felly mae'n bwysig sicrhau bod sefyllfa fel hon yn cael ei hesbonio'n glir yn eich cais.

**A wnewch chi gadw'r gronfa sefydliad ar agor tan y dyddiad cau? Mae ei chau'n gynnar yn fwy tebygol o gosbi sefydliadau bach/sy'n cael arian prosiect, nad oes ganddynt staff cyflogedig ac ni allant ymateb i ddyddiadau cau tynn iawn.**

Ein bwriad yw cadw'r broses ymgeisio ar agor tan y dyddiad cau rydym ni wedi'i gyhoeddi pan fo hynny'n bosibl. Ond rydym ni'n cydnabod y gall fod yn rhaid inni gau ceisiadau cyn y dyddiad cau yna os bydd y galw yn llawer uwch na'r disgwyl. Gofynnwn i sefydliadau gysylltu â ni'n gynnar yn y broses os teimlant efallai na fyddant yn gallu cyflwyno tan yn nes at y dyddiad cau.

O ran y pwynt yma ynghylch defnydd o arian y gronfa:

"-datblygu a chyflawni gweithgarwch sydd wedi'i gynllunio'n benodol i fod yn gyflawnadwy yn ystod y chwe mis nesaf, gan gynnwys:
* prosiectau datblygu i wneud sefydliadau'n barod i ailgychwyn eu gwaith arferol, er enghraifft datblygu sefydliadol"

A allwch chi egluro a oes modd defnyddio'r arian ar gyfer gweithgarwch nad yw'n gyhoeddus yn greadigol/artistig - hynny yw, ymchwil a datblygu, meddwl yn greadigol ac ati, neu a yw'n canolbwyntio ar ddatblygu'r busnes/sefydliad?

Gallwch ddefnyddio'r arian ar gyfer gweithgarwch creadigol/artistig nad yw'n gyhoeddus (gan gynnwys gwaith ymchwil a datblygu creadigol a/neu ddatblygu sefydliad/busnes). Bydd asesu'n seiliedig ar broses gystadleuol a nodir ein blaenoriaethau ariannu yn y canllawiau a'r cwestiynau cyffredin. Ein meini prawf wrth asesu fydd sut mae'r cais yn cyfrannu at sector hyfyw a chynaliadwy yng Nghymru y dyfodol gan ystyried y cyfyngiadau presennol. Rydym ni'n fodlon bod yn hyblyg ynglŷn â sut mae cyflawni hynny.

Gofynnir cwestiynau ynghylch sut y caiff y rhain eu hasesu o ystyried y gall y Portffolio ymgeisio hefyd. A gânt eu hasesu tebyg yn erbyn tebyg, hynny yw, sefydliadau Portffolio yn erbyn sefydliadau Portffolio a sefydliadau sy'n cael arian prosiect yn erbyn sefydliadau sy'n cael arian prosiect? Oherwydd y tebyg yw y bydd y dau fath o geisiadau'n dra gwahanol.

Caiff y ceisiadau eu hasesu mewn ffyrdd tebyg i'n prosesau arferol o roi grantiau. Ond oherwydd y cyfyngiadau ar ein hamser a'n ffordd o weithio o ganlyniad i goronafeirws, nid ydym ni'n rhagweld y byddwn ni'n cynnwys Cydweithwyr Celfyddydol yn y broses asesu.

Ni welwn y bydd hyn yn rhoi mantais i sefydliadau Portffolio. Caiff pob cais ei asesu yn ôl ei rinweddau ei hun ac yn erbyn y blaenoriaethau sydd yn y canllawiau a'r cwestiynau cyffredin.

Y tu hwnt i'r dogfennau gofynnol sydd raid eu hatodi (cyllideb, datganiad banc ac ati) pa atodiadau ychwanegol y caniateir i ni eu cynnwys?

Os caniateir i ni gynnwys rhai, a oes cyfyngiadau ar nifer y tudalennau?

Dim ond y dogfennau gorfodol yr ydym yn caniatáu eu hatodi gyda phob cais yn unol â'r hyn â nodir yn y canllawiau ar-lein:

Cyllideb, llif arian, tystiolaeth ynghylch llywodraethiant a thystiolaeth banc.

**Beth oedd trosiant eich sefydliad yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf?**

A ydych yn fodlon i'r wybodaeth gyfateb â'n blwyddyn ariannol ni neu a ydych am gael y ffigyrau ar gyfer y flwyddyn ariannol safonol o Ebrill 2019-Mawrth 2020?

Dylai eich trosiant blynyddol fod ar gyfer eich blwyddyn ariannol chi.

**Rydych yn gofyn bod y llif arian yn cwmpasu'r cyfnod o 6 mis o ddyddiad y cais -** a ydych am inni gynnwys yr arian rydym ni'n gwneud cais amdano gennych chi i ddangos sut y caiff ei wario, neu a ddylem ni **beidio** â'i gynnwys er mwyn dangos ein sefyllfa ariannol heb arian o'r grant ymsefydlogi?

Dylai eich llif arian gynnwys yn glir y grant rydych yn gwneud cais amdano fel eitem mewn llinell ar wahân er mwyn inni weld effaith ein harian ar eich sefydliad. Ond dylai eich naratif drafod y gwahaniaeth a fyddai heb ein harian ni.